Deg Awgrym ar gyfer Siarad yn Gyhoeddus

1. Cofiwch pwy yw eich cynulleidfa. Addaswch eich araith a'i gwneud yn addas i'r grŵp.
2. Gwnewch waith ymchwil. Meddyliwch am eich pwnc o bob cyfeiriad a byddwch yn barod am unrhyw gwestiwn y gallan nhw ei ofyn i chi.
3. Ychwanegwch elfen bersonol. Bydd storïau o fywyd go iawn yn helpu i ddod â'ch araith yn fyw a'i gwneud yn fwy perthnasol.
4. Cyflwyniad: hoeliwch eu sylw! Mae rhai pobl yn dechrau gyda ffaith neu ystadegau brawychus.
5. Y diwedd: gorffennwch gyda chrynodeb a galwad i weithredu, gan ddweud wrth bobl yr hyn yr hoffech chi iddyn nhw ei wneud.
6. Arhoswch o dro i dro i greu effaith (ac i gael eich gwynt yn ôl!) Gall nerfau wneud i chi siarad yn gyflym felly gwnewch ymdrech go iawn i siarad yn gymedrol.
7. Defnyddiwch ystumiau yn hytrach nag aros yn llonydd. Gwenwch, edrychwch ar eich cynulleidfa a dangoswch eich bod yn mwynhau eich hun.
8. Apeliwch at emosiynau eich cynulleidfa ynghyd ag at reswm. Mae'r elfen ddynol yn bwysig.
9. Ymarferwch ac amserwch eich araith ymlaen llaw. Cytunwch ar amser a glynwch at hyn gan gadw eich araith yn fyr ac yn ergydiol.
10. Gwiriwch eich lleoliad. Ewch yno cyn y digwyddiad i weld ei faint ac i deimlo'n gyfforddus amdano. Gwiriwch fod yr holl gyfarpar angenrheidiol yno a'i fod yn gweithio.

GwaithleuenctidCymru

pobl fel chi sy'n ei wneud fel y mae

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government